

Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 21ain o Fai 2018 am 7:00pm

Presennol: Cynghorydd Richard Evans (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Peter Parker, Griffith Evan Thomas, Arwel Pierce, Alan H. Jones

CYFARFOD BLYNYDDOL

1. Ymddiheuriadau: Cynghorwyr Bethan Lawton, Simon Jones

2. Datgan diddordeb: Ni fu i'r un cynghorydd ddatgan buddiant

3. Ethol Cadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2018/19:

Dyweddodd y Cynghorydd Richard Evans ei fod eisoes wedi bod yn Gadeirydd am ddwy flynedd yn olynol ac nad oedd yn dymuno bod yn Gadeirydd eto ymhen blwyddyn.

Cafwyd pleidlais o ddiolch i'r Cynghorydd Richard Evans am ei barodrwydd i dderbyn y cyfrifoldeb am y ddwy flynedd ddiwethaf ac am gytuno i ymgymryd â'r rôl am flwyddyn ychwanegol.

PENDERFYNIAD: Etholwyd y Cynghorydd Richard Evans yn Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2018/19.

4. Derbyn Datganiad Derbyn Swydd y Cadeirydd:

PENDERFYNIAD: I'w dderbyn ar ddiwedd y cyfarfod.

5. Ethol Is-Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2018/19:

PENDERFYNIAD: Etholwyd y Cynghorydd Simon Jones yn Is-Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2018/19.

6. Derbyn Datganiad Derbyn Swydd Is-Gadeirydd:

PENDERFYNIAD: Yn absenoldeb y Cynghorydd Simon Jones, i dderbyn y datganiad yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

7. Enwebu a phenodi Cynghorwyr y gyrrff allanol:

PENDERFYNIAD: I enwebu'r canlynol:
Ysbyty Tywyn a'r Cylch - y Cynghorydd Bethan Lawton
Un Llais Cymru - y Cynghorydd Arwel Pierce
Ysgol Gynradd Craig y Deryn - y Cynghorydd Bethan Lawton

8. Mabwysiadu Rheolau Sefydlog:

PENDERFYNIAD: I fabwysiadu'r Rheolau Sefydlog.

9. Mabwysiadu Rheoliadau Ariannol:

PENDERFYNIAD: I fabwysiadu'r Rheoliadau Ariannol.

10. Mabwysiadu Cod Ymddygiad i Gynghorwyr:

PENDERFYNIAD: I fabwysiadu Cod Ymddygiad i Gynghorwyr.

11. Derbyn Cofrestr Buddiannau Aelodau:

PENDERFYNIAD: Cwblhawyd cofrestrau buddiannau yn ystod y cyfarfod.

12. Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Lwfans £150 i Gynghorwyr:

PENDERFYNIAD: I dalu lwfans o £150 i bob Cynghorydd yn unol ag argymhelliad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, gyda chynghorwyr yn medru penderfynu peidio â chymryd ar y lwfans drwy gyflwyno llythyr syml.

13. Adolygu'r Gofrestr Asesiad Risg y Cyngor:

PENDERFYNIAD: I dderbyn y gofrestr asesiad risg. Contractwr y Cyngor i gynnwys cysgodfeydd bws, meinciau a'r ardd fach ar yr adroddiad misol er mwyn cadarnhau eu bod yn iawn neu os ydynt angen sylw.

14. Penodi Archwilydd Mewnol ar gyfer 2018/19:

PENDERFYNIAD: I benodi Cyngor Gwynedd yn archwilydd mewnol y Cyngor.

15. Datganiadau Cyfrifyddu 2017/18:

Yr oedd cyfrifon 2017/18 gan yr Archwiliwr Mewnol yng Nghaernarfon.

PENDERFYNIAD: I gymeradwyo Datganiadau Cyfrifyddu 2017/18 yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

16. Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 1 a Rhan 2) 2017/18:

Yr oedd cyfrifon 2017/18 gan yr Archwiliwr Mewnol yng Nghaernarfon.

PENDERFYNIAD: I gymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 1 a Rhan 2) 2017/18 yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

CYFARFOD ARFEROL

17. Derbyn cofnodion 16 Ebrill 2018

PENDERFYNIAD: I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir. I ysgrifennu llythyr at yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol er mwyn mynegi pryder y Cyngor bod peiriant ysgubo'r ffordd ym Mryncrug am 6 o'r gloch y bore a bod trigolion lleol yn cwyno am y sŵn.

18. Cyfrifon i'w talu:

B Gwilym	Cyflog	101605	£170.05
Cyllid a Thollau	Yswiriant Gwladol	101606	£42.40
Y Ganolfan	Llogi Ystafell	101607	£18.00
Cyngor Gwynedd	Toiledau Cyhoeddus	101608	£2,000.00

PENDERFYNIAD: I dalu'r anfoneb pan mae'r llyfr sieciau wedi ei ddychwelyd gan yr Archwilywr Mewnol.

19. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Archwiliad Adolygu Cynllun Datblygu Lleol adolygedig Eryri 2016-2031:

PENDERFYNIAD: I gyflwyno sylw ysgrifenedig i'r Awdurdod, sef "Pryd fydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn mabwysiadu'r safbwynt na fedr creu bywoliaeth ar olygfa?" gan beidio gofyn am yr hawl i siarad mewn cyfarfod yr Awdurdod.

20. Cyngor Gwynedd - Priffyrdd a Bwrdeistrefol - Rhaglen Waith mis Mai 2018:

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.
I ysgrifennu at Gyngor Gwynedd er mwyn eu hysbysu bod cylfat wedi cau ger Dolithel, bod angen torri gwair ar y llwybr cyhoeddus tuag at Dywyn rŵan yn hytrach nac aros tan fis Gorffennaf, nid yw'r peiriant ysgubo ffordd yn ysgubo palmentydd, gofyn am raglen gwaith dros y ddau fis nesaf ac i dorri gwair ar ochr ffyrdd cyn mis Gorffennaf.

21. Cyngor Gwynedd - Priffyrdd a Bwrdeistrefol - Statws Ffordd ger Plas Coch:

Yr oedd llythyr wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd yn dweud mai llwybr cyhoeddus yw'r ffordd ac nad yw'n briffordd.

PENDERFYNIAD: I herio'r wybodaeth a dderbyniwyd gan Gyngor Gwynedd, gan ddweud bod Cyngor Cymuned Brynchrug yn credu mai ffordd yw'r llwybr, gan ofyn pam bod Cyngor Gwynedd wedi ei darmacio yn y 60'au a pham nad oedd Cyngor Cymuned Brynchrug wedi ei hysbysu bod ei statws wedi newid.

22. Bobath - Cais Ariannol:

PENDERFYNIAD: Gadael ar y bwrdd.

23. Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig - Gwobr Pentrefi Meirionnydd 2018:

PENDERFYNIAD: I beidio cymryd rhan yn y gystadleuaeth.

24. Cae Chwarae - Cais i gynnal Carnifal:

PENDERFYNIAD: I roi caniatâd, gan ofyn iddynt sicrhau eu bod yn meddu ar drwydded gwerthu alcohol os ydynt yn bwriadu gwerthu alcohol yn y Carnifal. I roi anfoneb a chredyd i Bwyllgor y Carnifal am ddefnydd o'r cae.
Gofyn i Glwb Pêl-droed Tywyn a Brynchrug am y tocyn trydan, er mwyn i'r Cyngor roi £20 arno Trefnu bod Gwenan Ellis lanhawraig hunangyflogedig yn glanhau toiledau'r pafiliwn.

25. Cae Chwarae - Comisiwn Elusennau - Trosglwyddo'r cae chwarae i elusen R.J.Roberts:

Yr oedd y Comisiwn Elusennau yn gofyn am wybodaeth parthed statws y tir.

PENDERFYNIAD: Ysgrifennu at Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd gan nad yw Uned Eiddo Corfforaethol y Cyngor wedi ateb llythyr Cyngor Cymuned Brynchrug.

26. Cae Chwarae - Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Grant tuag at coed ffrwythau:

PENDERFYNIAD: I beidio ceisio am grant tuag at brynu coed ffrwythau i'r cae chwarae.

27. Cae Chwarae - Adroddiad:

Adroddwyd y canlynol:

-y Pafiliwn yn iawn

-ffin y cae yn iawn

-un o'r siglenni angen sylw, sef y siglen fawr ar y dde – bollten a nyten yn rhydd ar y sedd

-pont siglo angen sylw – twll angen ei lenwi gyda phridd neu dywod

-Y Clwb Pêl-droed angen rhoi sylw i'r rhwystrau y tu ôl i'r twll ymochel

-gwair eisiau ei dorri

PENDERFYNIAD: Contractwr y Cyngor i edrych ar y siglen a'r bont siglo. Hysbysu'r Clwb Pêl-droed am y rhwystrau y tu ôl i'r twll ymochel.
Diolchwyd i'r Cynghorydd Peter Parker am wybodaeth parthed newidiadau posib i gynghrair pêl-droed, all effeithio ar y cae chwarae.

28. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Y Cynghorydd Sir yn absennol o'r cyfarfod

PENDERFYNIAD: Dim i'w adrodd.

29. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Yr oedd aelodau o'r cyhoedd wedi mynegi pryderon am rwystr ar lwybr cyhoeddus ar dir Ynys-y-Maengwyn, sef bod yr Outward Bound Trust yn cynnal eu sesiynau hyfforddiant canwio ar y llwybr cyhoeddus ac nad oedd lle i gerddwyr mynd heibio.

PENDERFYNIAD: Ysgrifennu at yr Outward Bound Trust er mwyn eu hysbysu o'r gwyn ac iddynt fod yn ofalus nad ydynt yn creu rhwystr ar lwybr cyhoeddus.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:30pm

Llofnod y Cadeirydd